Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol GGD Cwmllynfell
# Heol y Bryn
# Cwmllynfell
# Abertawe
# SA9 2FJ

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/11/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Draddodiadol Cwmllynfell yn ysgol gymunedol ddwyieithog o dan ofal awdurdod lleol Castell Nedd Port Talbot.  Mae wedi ei lleoli ar gyrion y pentref.  Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal o'i gwmpas.  Ers Ionawr 2012, mae hi hefyd yn derbyn disgyblion Ysgol Rhiwfawr sydd wedi cau ers diwedd 2011.  Mae hyn yn golygu ei bod yn gwasanaethu ardal ehangach na'r dalgylch gwreiddiol a bod nifer y plant a disgyblion wedi cynyddu'n arwyddocaol o 75 ym mis Medi 2011 i 110 ym Medi 2012.

Yn sgil y newidiadau uchod, bu gostyngiad arwyddocaol yng nghanran y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.  Y ganran gyfredol yw 7.9% sy'n arwyddocaol is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol.  Yn 2011, roedd gan 15.5% o'r disgyblion hawl i brydau ysgol am ddim, canran sy'n fwy tebyg i'r rhai sirol a chenedlaethol.  Yn ôl yr ysgol, nid yw'r ardal a wasanaetha yn un freintiedig na difreintiedig.

Mae 110 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys 16 disgybl meithrin rhan amser.  Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn rhan amser y diwrnod sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed.  Mae tri dosbarth ar gyfer disgyblion oed addysg statudol, ynghyd ag un dosbarth meithrin a derbyn.

Mae'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol gyda chyflawniadau tebyg i'r hyn sy'n ddisgwyliedig o'u cymharu ag ysgolion Cymraeg y sir.

Mae gan 11% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol ond nid oes yr un ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.  Mae'r ganran hon yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol.  Mae 92% o'r disgyblion o gefndir ethnig gwyn ac 8% o dras cymysg.  Nid oes yr un disgybl yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol ac nid yw'r Awdurdod Lleol yn gofalu am unrhyw ddisgybl.

Mae 67% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg ac mae 23% pellach yn siarad Cymraeg i safon gyfatebol.  Mae pob disgybl yn dilyn cwrs Cymraeg iaith gyntaf.  Defnyddir y Gymraeg yn gyfrwng addysgu hyd at Flwyddyn 2.  Yng nghyfnod allweddol 2, defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfryngau addysgu.  Addysgir mathemateg a gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Saesneg yng nghyfnod allweddol 2.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod tymor yr hydref 2006.  Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym Medi 2010.  Hi hefyd oedd pennaeth Ysgol Rhiwfawr ac roedd yn gofalu am y ddwy ysgol am gyfnod.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Cwmllynfell yn 2012-2013 yw £3,866.  Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Nghastell Nedd Port Talbot yw £7,410 a'r lleiafswm yw £2,806.  Mae Ysgol Cwmllynfell yn safle 21ain o'r 68 ysgol gynradd yng Nghastell Nedd Port Talbot o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- safonau yn y dosbarthiadau yn dda;
- y gofal ar gyfer disgyblion a'r trefniadau ar gyfer eu lles yn dda;
- yr addysgu yn dda; a bod
- y pennaeth a llywodraethwyr yr ysgol yn rhoi arweiniad cadarn.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan bennaeth a llywodraethwyr yr ysgol ddisgwyliadau uchel parthed symud yr ysgol ymlaen;
- gan y staff a'r llywodraethwyr ymwybyddiaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu gwella;
- yr holl staff yn barod i ymateb i'r her o godi safonau; a bod
- y staff yn adnabod anghenion a chefndir y disgyblion yn dda ac yn ymateb iddynt yn briodol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y disgyblion gallu uwch yn cyflawni'n dda erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2

A2 Gwella presenoldeb

A3 Sicrhau bod y sylwadau ar waith disgyblion ac adroddiadau i rieni wedi eu mynegi mewn ffordd sy'n ddealladwy i'r rhai sy'n eu darllen.

A4 Sicrhau bod targedau cynlluniau addysg unigol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn benodol a mesuradwy.

A5 Ffurfioli gweithdrefnau rheolaeth yr ysgol o ran cadw cofnodion a nodi penderfyniadau.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r disgyblion o bob oed a gallu yn gwneud cynnydd da yn y medrau. Mae safonau llafaredd yn gryfder yn y Gymraeg a'r Saesneg. Y Gymraeg yw iaith naturiol cyfathrebu bron pob un o'r disgyblion ar lafar yn yr ysgol. Defnyddia bron bob un o'r disgyblion idiomau a geirfa cyfoethog Cymraeg yr ardal. Mae safonau ysgrifennu'n dda ar draws yr ysgol. Ysgrifenna'r disgyblion yn estynedig ac yn ddiddorol mewn ystod o gyweiriau gwahanol mewn nifer dda o bynciau. Er bod mân wallau yn y Saesneg a'r Gymraeg, mae'r cynnwys yn ddiddorol ac mae llawysgrifen yn dda.

Mae safonau darllen yn gryfder. Yn y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen a'r Gymraeg a Saesneg yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn dangos mwynhad wrth ddarllen llyfrau. Maent yn darllen yn ystyrlon ar goedd, yn dehongli'r testun ac yn ei egluro'n dda. Mae ganddynt eirfa dda. Maent yn gyfarwydd â mathau gwahanol o ysgrifennu a gallant egluro'n fanwl beth yw eu nodweddion.

Mae disgyblion drwy'r ysgol ac ar draws yr ystod gallu yn gwneud cynnydd da mewn gwersi unigol a dros gyfnod o amser. Mae bron bob un yn adalw ffeithiau'n gyflym a chywir. Cydweithia'r disgyblion yn dda fel aelodau o grŵp ac fel unigolion. Daw bron pob un i ddeall cysyniadau pynciol ac i'w cymhwyso'n dda mewn gweithgareddau sy'n cyfuno nifer o fedrau gwahanol. Defnyddia'r disgyblion dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n effeithiol i ymchwilio i dasgau grŵp neu unigol. Cymhwysa bron pob disgybl fedrau rhifol yn bwrpasol i'w dasgau. Dysga bron bob disgybl sut i ddod yn ddysgwr annibynnol a hyderus.

Er bod amrywiaeth o flwyddyn i flwyddyn oherwydd niferoedd disgyblion, mae deilliannau'r ysgol yn aml yn debyg i ddeilliannau diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 ysgolion sy'n perthyn i'r un teulu.

Yn 2012, roedd deilliannau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn ddigon tebyg i gyfartaledd y teulu ar draws y pynciau. Roeddent yn is na chyfartaledd y teulu yn Saesneg, ychydig yn is mewn mathemateg a gwyddoniaeth ac ychydig yn uwch yn y Gymraeg. Yr un oedd y patrwm cyffredinol yn 2011 ond yn 2010 roedd deilliannau yn arwyddocaol uwch na chyfartaleddau'r teulu ym mhob un o'r dangosyddion.

Pan gaiff deilliannau'r ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 eu cymharu gyda rhai ysgolion yn yr un band cinio am ddim, daw gwahaniaethau mewn perfformiad dros amser yn fwy amlwg. Nid oedd deilliannau 2012 cystal â rhai 2011 ac roedd deilliannau 2010 yn rhagori ar rai 2011 a 2012.

Yn 2012 roedd deilliannau'r ysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ymhlith chwarter uchaf ysgolion â lefelau tebyg o brydau ysgol am ddim ar gyfer yr holl ddangosyddion, heblaw am fathemateg, lle'r oedd ymhlith hanner uchaf ysgolion tebyg.

Mae cyflawniadau'r bechgyn yn cymharu'n ffafriol â rhai'r merched. Nid yw'r disgyblion mwyaf galluog bob amser yn cyrraedd eu potential mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, er nad yw'r gwahaniaeth mewn cyflawniad yn amlwg yn ystod gwersi. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt ag agweddau cadarnhaol tuag at wella'u iechyd eu hunain. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o effeithiau ymarfer corff a bwyta'n iach ar eu hiechyd. Mae pob disgybl yn gwybod at bwy i droi os yw mewn poen neu ofid.

Er bod presenoldeb disgyblion ers nifer o flynyddoedd yn well na chanran yr awdurdod a Chymru, mae wedi aros yn is na chyfartaledd presenoldeb ysgolion tebyg. Mae ymddygiad y disgyblion yn gryfder amlwg. Mae bron pob disgybl yn gwrtais ac yn groesawgar gydag ymwelwyr. Mae'r holl ddisgyblion yn dangos gofal a phryder am eu cyfoedion ac yn dangos balchder yn eu hysgol.

Mae gan bron pob disgybl lais sy'n caniatáu iddo gyfrannu tuag at benderfyniadau yn yr ysgol. Cyflwyna'r cyngor ysgol a phwyllgor eco safbwyntiau'r disgyblion yn effeithiol i reolwyr yr ysgol. Mae'r holl ddisgyblion yn manteisio'n dda ar gyfleoedd aml i asesu gwaith a gosod targedau personol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos medrau cymdeithasol aeddfed tra'n gweithio gydag eraill a datrys problemau. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan arwyddocaol mewn gweithgareddau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac elusennol yn y gymdeithas leol. Mae hyn yn caniatáu iddynt ddefnyddio'r medrau a ddysgant yn yr ysgol mewn ffordd ymarferol ac yn cryfhau eu hymwybyddiaeth o anghenion a nodweddion eu cymuned.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau da ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol ac yn ymateb yn briodol i ofynion y Cyfnod Sylfaen, Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r ysgol yn sicrhau profiadau diddorol a chyfoethog sy'n herio disgyblion ac yn ennyn eu diddordeb. Mae'r cwricwlwm yn diwallu anghenion neilltuol grwpiau ac unigolion penodol ac mae'n cynnig rhaglenni personol addas.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau wedi'i chynllunio'n fanwl. Mae gwaith cartref priodol yn cael ei osod yn rheolaidd. Ei brif nodwedd yw elfen uchel o waith annibynnol gan ddisgyblion, yn aml o'u dewis eu hunain fel dilyniant i waith yn y dosbarth. Cyfoethogir y cwricwlwm gan gyfraniadau gan siaradwyr ac ymwelwyr o'r gymdeithas leol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg wedi ei datblygu'n effeithiol trwy'r ysgol. Mae'r ysgol yn rhoi sylw penodol hefyd i ddatblygu'r dimensiwn Cymreig, ac mae hyn yn cryfhau ymwybyddiaeth y disgyblion o'u hardal a'u Cymreictod.

Mae’r ddarpariaeth sy’n galluogi’r disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd yn gryfder. Mae’r trefniadau i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o’r rôl sydd ganddynt hwy ac eraill mewn cymdeithas ac yn y byd ehangach hefyd yn effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu’n dda yn yr holl wersi. Mae gan yr athrawon ac oedolion eraill wybodaeth bynciol dda ac mae eu disgwyliadau yn uchel o safbwynt safonau ac ymddygiad. Yn ogystal, defnyddiant amrediad eang o ddulliau dysgu ac addysgu. Caiff gwersi unigol a chyfresi o wersi eu cynllunio’n ofalus. Mae’r cymorthyddion sy’n cefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion neu unigolion yn cyfrannu’n dda at y dysgu. Bron yn ddieithriad, mae’r staff yn darparu’n ofalus ac effeithiol ar gyfer disgyblion o oed a galluoedd gwahanol. Mae’r addysgu’n datblygu medrau’r disgyblion yn dda.

Defnyddia’r athrawon ddulliau effeithiol o asesu yn ystod y gwersi i hybu’r dysgu. Caiff y disgyblion adborth llafar da ar eu gwaith a chyfleoedd da i asesu eu gwaith eu hunain.

Gwna’r athrawon sylwadau ysgrifenedig defnyddiol yn gyson ar waith disgyblion drwy’r ysgol ond, yn aml, mae ieithwedd y sylwadau yn fwy addas ar gyfer oedolion na’r disgyblion eu hunain. Caiff disgyblion arfarniad teg o’u gwaith ynghyd â chyngor defnyddiol ar gyfer ei wella.

Cedwir cofnodion manwl ar waith disgyblion unigol ynghyd â phortffolios sydd wedi eu safoni a’u cymedroli yn y pynciau craidd. Rhydd y rhain ddarlun clir o gynnydd ar lefel ysgol a chynnydd unigolion.

Caiff rhieni a gofalwyr wybodaeth fanwl am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant. Ar adegau, mae’r defnydd o dermau technegol addysg yn y sylwadau yn ei gwneud hi’n anodd i’r rhieni eu deall.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer sicrhau datblygiad iechyd a lles y disgyblion, gan gynnwys eu diogelwch ar y safle. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar agwedd y disgyblion tuag at hybu eu hiechyd eu hunain ac agweddau ar gadw’n heini.

Mae’r ysgol yn darparu’n ofalus ar gyfer hybu addysg gymdeithasol, gan gynnwys agweddau moesol, diwylliannol, ac ysbrydol. Mae’r staff yn adnabod anghenion a chefndir y disgyblion yn dda ac yn gwybod sut i ymateb iddynt yn briodol.

Mae trefniadau da i gydnabod llwyddiannau a chyflawniadau disgyblion ar draws nifer o feysydd a gweithgareddau sy’n cryfhau’r ddarpariaeth hon.

Mae cysylltiadau da gyda gwasanaethau allanol yn cyfrannu’n effeithiol tuag at gynnig arweiniad arbenigol ac yn ehangu gwybodaeth yr ysgol am anghenion a chefndir y disgyblion.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion statudol ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan yr ysgol bolisïau a threfniadau da i gael gwared ar unrhyw ymddygiad gormesol neu fwlio.

Mae'r athrawon yn darparu gwaith wedi ei addasu yn dda ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff y disgyblion gymorth priodol ar gyfer cyflawni eu tasgau. Mae cynlluniau addysgol unigol y disgyblion yn gosod targedau gwella ond nid ydynt bob tro yn ddigon penodol na mesuradwy.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, groesawus a chartrefol. Mae ethos cynhwysol sy'n parchu cyfraniad staff a disgyblion ac mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol. Dengys y disgyblion awydd i helpu a chefnogi ei gilydd ac mae'r ysgol yn cynnig cyfle cyfartal i bawb i fod yn rhan o'i chymuned. Mae polisïau a gweithdrefnau penodol a chlir sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol, ac mae'r rhain yn hysbys i staff, llywodraethwyr a rhieni.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r safle yn bwrpasol ar gyfer chwarae a dysgu ac yn manteisio'n dda ar ddatblygiadau diweddar buddiol i'r adeiladau a'r safle. Mae staff ac adnoddau priodol ar gyfer cyflwyno agweddau amrywiol y cwricwlwm. Mae'r awyrgylch lliwgar a deniadol yn gymorth i ysgogi'r dysgu ac i ddathlu a hyrwyddo llwyddiannau'r disgyblion. Caiff yr holl adeilad a'r safle eu cadw'n lân a thaclus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth, y dirprwy bennaeth a'r corff llywodraethol weledigaeth glir sy'n arwain at strategaeth gadarn a disgwyliadau uchel ar gyfer cynnal safonau a sicrhau gwelliant. Mae'r holl staff yn rhannu'r weledigaeth, ac yn cyfrannu'n dda at ddatblygu'r ysgol ymhellach.

Mae rolau a chyfrifoldebau staff wedi cael eu diffinio'n glir, ac mae'r holl staff yn ymroddedig i'w rôl. Mae'r staff yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol yn cael ei chynllunio yn unol â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Serch hynny, anffurfiol yw nifer o weithdrefnau a threfniadau'r ysgol o safbwynt cadw cofnodion a nodi penderfyniadau'n fanwl.

Mae prosesau rheoli perfformiad yn gosod targedau realistig sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n briodol ar agweddau hunanarfarnol gan ganolbwyntio ar faterion gwella'r ysgol. Cyfranna hyn oll yn effeithiol tuag at godi safonau ac at adnabod anghenion y disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau ac yn herio'r ysgol yn effeithiol fel cyfaill beirniadol. Mae gan yr aelodau wybodaeth uniongyrchol am safonau a'r profiadau dysgu. Mae'r corff llywodraethol yn deall yn dda bwysigrwydd dehongli data er mwyn adnabod cynnydd. Fel canlyniad, mae'r llywodraethwyr yn dangos dealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill

y teulu ac yn genedlaethol. Mae'r llywodraethwyr hefyd yn sicrhau bod yr ysgol yn ymateb i ofynion statudol.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys dwyieithrwydd, datblygu llythrennedd a medrau eraill, cyfle cyfartal, cynaliadwyedd a lles y disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol raglen fonitro effeithiol a phroses hunanarfarnu sy'n sicrhau bod gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu ymhellach.

Caiff gwaith y staff ei fonitro'n ofalus ac mae trefn ffurfiol i sicrhau cytundeb ar dargedau personol ar gyfer gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Gwna'r ysgol ddefnydd priodol o holiaduron i ddisgyblion, rhieni a llywodraethwyr.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o ddata i fonitro perfformiad disgyblion a gosod targedau penodol ar gyfer gwelliant. Mae arweinwyr pynciau craidd yn dadansoddi data yn effeithiol er mwyn cymharu perfformiad yr ysgol ag ysgolion eraill a monitro patrymau cyrhaeddiad.

Mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu'r ysgol yn deillio'n uniongyrchol o'r hunanarfarniad. Maent yn cynnwys targedau mesuradwy ac yn cynnig camau clir ar gyfer sicrhau gwelliannau pendant.

Mae cydweithio effeithiol gydag ysgolion eraill wedi caniatáu i'r staff arsylwi enghreifftiau o arfer da. Mae hyn wedi arwain at gryfhau methodoleg addysgu iaith.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r bartneriaeth gyda rhieni yn effeithiol ac yn sicrhau bod bron pob rhiant yn cefnogi egwyddorion a gwerthoedd yr ysgol. Llwyddodd yr ysgol i ennill parch rhieni disgyblion newydd a ddaeth o Ysgol Rhiwfawr yn Ionawr 2012.

Mae cyswllt effeithiol gydag ysgolion eraill y clwstwr, sydd wedi caniatáu ehangu arbenigedd staff a rhannu adnoddau. Mae trefniadau pontio da gyda chylch meithrin lleol yn caniatáu trosglwyddiad llyfn i'r ysgol. Yn yr un modd, mae trefniadau priodol gyda'r ddwy ysgol uwchradd i hyrwyddo gofal bugeiliol effeithiol. Mae cysylltiadau cwricwlaidd mewn ystod dda o bynciau, Mae'r bartneriaeth gref gyda nifer uchel o sefydliadau sy'n hyfforddi athrawon a chymorthyddion yn gymorth i ddatblygu ymwybyddiaeth y staff o fethodoleg dysgu ac addysgu cyfoes.

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau pwysig gyda mudiadau chwareuon, cymdeithasol ac elusennol yr ardal. Mae hyn yn cryfhau ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cynefin ac yn caniatáu iddynt gymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff staffio ac adnoddau, gan gynnwys adnoddau ariannol, eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi ac i wella'r dysgu. Mae'r ysgol yn defnyddio staff addysgu a chymorthyddion yn briodol ac mae ganddynt y wybodaeth a'r arbenigedd i ymdrin â phob agwedd ar y cwricwlwm. Mae pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol yn ôl ei anghenion personol a gofynion yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at wella safonau.

Mae'r ysgol yn cynllunio ei defnydd a'i phryniant o adnoddau'n ofalus. Os oes angen, manteisia'n dda ar adnoddau ac adnoddau dynol a materol y tu allan i'r ysgol. Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau ei chynllun datblygu ac anghenion cyfredol.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol gyda chyflawniadau tebyg i'r hyn sy'n ddisgwyliedig o'u cymharu ag ysgolion Cymraeg y sir.

Mae angen gofal wrth ddehongli deilliannau asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 oherwydd bod nifer y disgyblion, fel arfer, yn gymharol fach. Yn ogystal, mae nifer y disgyblion mewn blwyddyn ysgol, gan gynnwys nifer y disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau am ddim a'r rhai sy'n gorfod talu am eu prydau, yn amrywio. Mae'r cydbwysedd rhwng niferoedd bechgyn a merched hefyd yn anwastad o flwyddyn i flwyddyn.

Mae deilliannau'r ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn aml yn debyg i ddeilliannau diwedd cyfnod allweddol ysgolion sy'n perthyn i'r un teulu, yn enwedig pan ystyrir gwerth ystadegol pob disgybl. Mae peth anwastadrwydd, fodd bynnag, o flwyddyn i flwyddyn ac o bwnc i bwnc.

Yn 2012, roedd deilliannau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn ddigon tebyg i gyfartaledd y teulu ar draws y pynciau. Roeddent yn is na chyfartaledd y teulu yn Saesneg, ychydig yn is mewn mathemateg a gwyddoniaeth ac ychydig yn uwch yn y Gymraeg. Yr un oedd y patrwm cyffredinol yn 2011 ond yn 2010 roedd deilliannau yn arwyddocaol uwch na chyfartaleddau'r teulu ym mhob un o'r dangosyddion.

Mae cyflawniad llafar, darllen ac ysgrifennu Cymraeg wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu rhwng 2010 a 2012. Er bod cyflawniad llafar, darllen ac ysgrifennu Saesneg yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu yn 2010 a chyflawniad ysgrifennu ychydig yn uwch yn 2011 a 2012, roedd cyflawniad llafar a darllen Saesneg ychydig islaw cyfartaledd y teulu yn 2011 a 2012.

Pan gaiff deilliannau'r ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 eu cymharu gyda rhai ysgolion yn yr un band cinio am ddim, daw gwahaniaethau mewn perfformiad dros amser yn fwy amlwg. Nid oedd deilliannau 2012 cystal â rhai 2011 ac roedd deilliannau 2010 yn rhagori ar rai 2011 a 2012. Yn 2012, roedd deilliannau'r ysgol yn ei gosod ymhlith hanner isaf ysgolion tebyg ar gyfer Saesneg a'r Gymraeg ac yn chwarter isaf yr un grŵp o ysgolion ar gyfer gwyddoniaeth a mathemateg. Yn 2011, roedd perfformiad yr ysgol yn ei gosod yn hanner uchaf ysgolion tebyg ar gyfer yr holl ddangosyddion heblaw gwyddoniaeth, lle'r oedd ymhlith hanner isaf ysgolion. Yn 2010, roedd deilliannau'r ysgol yn gosod yr ysgol ymhlith chwarter uchaf ysgolion tebyg ar gyfer pob dangosydd.

Yn 2012 roedd deilliannau'r ysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ymhlith chwarter uchaf ysgolion â lefelau tebyg o brydau ysgol am ddim ar gyfer yr holl ddangosyddion, heblaw am fathemateg, lle'r oedd ymhlith hanner uchaf ysgolion tebyg.

Yn ystod y cyfnod 2009-2012, nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen na chyfnod allweddol 2. Dros yr un cyfnod, er bod rhai eithriadau, yn benodol yn neilliannau diwedd cyfnod allweddol 2

yn 2012, nid yw'r disgyblion galluocaf bob tro wedi cyflawni lefel neu ddeilliant uwch na'r lefel neu ddeilliant disgwyliedig. Mae hyn yn wir am y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i holiaduron y rhieni a gofalwyr**

Cafwyd 14 ymateb i holiaduron y rhieni neu ofalwyr. Yr oedd yr holl rieni a ymatebodd yn cytuno bod;

- eu plant wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda pan roeddent yn dechrau yn yr ysgol;
- yr addysgu'n dda;
- staff yn disgwyl i blant weithio'n galed ac i wneud eu gorau;
- eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd, a bod
- eu plant yn ddiogel yn yr ysgol.

Roedd y rhan fwyaf o rieni a ymatebodd yn cytuno bod;

- eu plant yn hoffi'r ysgol;
- plant yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol;
- yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb, a'u bod
- yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.

Roedd llawer o'r rhieni yn credu eu bod:

- yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol;
- yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion, ac
- yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn.

Roedd lleiafrif o'r rhieni yn credu nad oedd amrywiaeth digon da o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau yn yr ysgol, ac nad oedd gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae'r plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.

Roedd ychydig o rieni'n teimlo nad oedd yr ysgol yn trin bob plentyn yn deg a chyda pharch, ac nad oedd eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.

Oherwydd nifer bach o ymatebion i'r holiadur, mae'n anodd cymharu lefelau bodlonrwydd rhieni â'r ffigurau cenedlaethol. Fel arfer, mae'r farn yn ddigon tebyg ac yn cymharu'n ffafriol gyda'r darlun cenedlaethol. Serch hynny, mae'r ganran sy'n dweud nad oes digon o amrywiaeth gweithgareddau yn arwyddocaol uwch na'r un cenedlaethol.

**Ymateb i holiaduron y dysgwyr**

Cwblhaodd 55 o blant yr holiadur.  Mae pob plentyn yn gwybod gyda phwy y dylai siarad os yw'n poeni neu'n gofidio ac yn gwybod beth i'w wneud a chyda phwy i siarad os yw'n gweld y gwaith yn anodd.

Mae bron pob plentyn yn dweud bod yr ysgol:

- yn fan diogel ar ei gyfer;
- yn delio'n dda ag unrhyw fwlio;
- yn ei ddysgu sut i aros yn iach;
- yn cynnig llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd;

Roedd bron pob plentyn yn dweud hefyd bod:

- yr athrawon ac oedolion eraill yn ei helpu i ddysgu ac i wneud cynnydd;
- ganddo ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud ei waith, a'i fod
- yn credu ei fod yn gwneud yn dda yn yr ysgol.

Roedd rhan fwyaf y plant yn credu bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol.

Roedd ychydig o blant yn credu nad yw plant eraill yn ymddwyn yn dda ac nad ydynt yn gallu gwneud eu gwaith o'r herwydd.

Mae'r ymatebion uchod yn ddigon tebyg i'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.  Mae lleiafrif o blant yr ysgol hon, fodd bynnag, yn dweud nad yw plant eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod amser chwarae ac amser cinio.  Mae'r canran sy'n honni hyn yn arwyddocaol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Gareth Wyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Melfyn Hopkins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lynne Brier | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.